Ariannwyd y gwaith gan Gronfa Treftadaeth y Loteri, Swyddfa Cronfa Cymru yn Ewrop a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Arolwg Geoffisegol, Parc Dinefwr gan Stratascan

Cyflwyniad

Y n ystod arolwg archeolegol yn 2003 fe ddarganfuwyd y Gaer Rhufeinig yn y rhan ddwyreiniol o Barc Dinefwr. Yn wir , drwy'r gwaith, a'r defnydd o offer arbenigol geoffisegol, fe welwyd fod presenoldeb nid yn unig un , ond dwy Gaer Rhufeinig yno, yn orgyffwrdd, ac o wahanol dyddiadau. Gwelwyd bod y rhain yn gysylltiedig gyda ffyrdd ac aneddiadau i bobl. Prin iawn yw'r olion gweladwy a adawyd ar ôl y strwythurau yma.

Mae'r gwaith archeolegol dan ofal Archeoleg Cambria ac yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ffurfio rhan o brosiect llawer ehangach gan yr Ymddiriedolaeth gyda'r bwriad o adfer y tirlun a ddyluniwyd ym Mharc Dinefwr. Bydd hwn yn adnewyddu y tirlun naturiol a hwyluso mynediad i bawb.

Caer Rhufeinig Llandeilo, Parc Dinefwr

Newyddlen Mehefin— Gorffennaf 2006

Cloddiad cymharol fach yw hwn ac fe fydd ond yn cyffwrdd â wyneb darganfyddiad mawr archeolegol. Y gobaith yw y bydd yn ddechreuad o archwiliad ehangach am ddylanwad y Rhufeiniad yn Nyffryn Tywi.

Diolch am eich cefnogaeth

Ewch i www.cambria.org.uk am rhagor o fanylion



Mae'r darlun hwn sydd wedi'i baentio gan Neil Ludlow yn rhoi syniad i ni o sut oedd yr ail gaer o bosib yn edrych tua AD 100. Erbyn y cyfnod hwn roedd y gaer fawr wedi'i gadael. Serch hynny, mae'n bosib fod rhan o amddiffynfeydd y gaer gynharach hon wedi'u hail ddefnyddio fel anecs amddiffynnol oedd ynghlwm wrth y gaer leiaf. Mae'n ymddangos ei fod wedi'i ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau diwydiannol ar raddfa fechan. Mae'r ail gread yn dangos cynllun y barics ac adeiladau milwrol eraill sydd y tu fewn i amddiffynfeydd y gaer ei hunan yn ogystal â'r adeiladau llai ffurfiol sydd yn y ficws. Wrth ymyl y ficws mae yna amgaead bychan a ddefnyddiwyd gan filwyr er mwyn ymarfer tactegau. Mae'r gaer wedi'i hadeiladu ar dirwedd a oedd cynt wedi'i rhannu i mewn i gaeau bach o'r Oes Haearn. Mae o leiaf un fferm amddiffynnol o'r Oes Haearn wedi'i dynodi o fewn Parc Dinefwr ac mae'n bosib fod yna ail yn yr ardal lle adeiladwyd y castell canoloesol yn ddiweddarach.

Y Gaer yn AD100

Cynllun Caerau Llandeilo

Roedd y gaer gyntaf llawer yn fwy na'r gaer ddiweddarach ac o bosib roedd yn gartref i uned fawr filwrol , efallai yn atodiad llengol. Os felly, mae presenoldeb uned mor fawr mor bell i'r gorllewin yn awgrymu gwrthwynebiad ffyrnig iawn i'r feddiannaeth Rufeinig. Nid ydym yn gwybod eto pryd y sefydlwyd y gaer gynnar yma a pham y gadawyd yn wag. Hefyd, nid ydym yn gwybod eto pryd yr adeiladwyd yr ail gaer, er o bosib roedd ynghanol 70au AD.

Roedd y gaer ddiweddaraf yn un llawer yn llai ac o bosib yn gartref i uned gynorthwyol neu fintai yn cynnwys tua 500 o filwyr traed.

Drwy' r arolwg geoffisegol rydym wedi derbyn llawer o wybodaeth am gynllun y gaer ddiweddaraf yn Llandeilo. Amgylchynwyd y gaer gan drefniant o amddiffynfeydd trawiadol yn cynnwys o leiaf tri threfniant sylweddol o ffosydd mewn ffurf V a rhagfuriau. Ar hyd y top byddai palisâd o bren o fewn y rhagfur mewnol ac ynddo cyfres o dyrrau sgwâr wedi'u gosod, a'r pellter yn gyfartal rhyngddynt. Ar bob ochr i'r pedwar mynediad i'r gaer byddai porthdai anferth pren. Roedd yr amddiffynfeydd yn cwmpasu ardal o gwmpas 150 m o hyd a 100m o led; sef yn gyfystyr â dau gae rygbi ochr wrth ochr.

Ar y tu mewn byddai patrwm grid o heolydd, yn rhannu mewn i flociau o adeiladau, yn cynnwys gwersylltai, ysguboriau, a storfeydd eraill.

Carenza Lewis o'r rhaglen deledu 'Time Team' a'r llestr corfflosgiad a ddarganfyddwyd ar ddydd cyntaf y cloddiad

Yng nghanol y gaer, yn wynebu y prif borth, roedd adeilad y pencadlys neu Principia ac ochr yn ochr â hwn fyddai tŷ y Pennaeth milwrol.

Awgrymir gan yr astudiaeth geoffisegol taw ar bob ochr i'r heol, yn agosáu at y prif fynedfa, roedd cyfres o adeiladau pren eraill. Efallai taw annedd fach sifil oedd yma – vicus. Byddai caerau garsiwn yn aml yn denu aneddiadau anffurfiol, gan i aelodau o'r boblogaeth frodorol fanteisio ar bresenoldeb grŵp o filwyr Rhufeinig a oedd yn derbyn cyflog da ac yn bell o'u cartrefi. Mae'r aneddiadau yma yn cynnig cyfle arbennig i astudio natur y cyfathrebu cyntaf, heb wrthdaro a brwydro, rhwng y boblogaeth gynhenid a'r meddianwyr Rhufeinig.

Er y gallwn dderbyn llawer o wybodaeth drwy'r arolwg geoffisegol, ond drwy gloddio y profir yr awgrymiadau yma. Drwy'r cloddio hefyd fe gawn y dystiolaeth dyddio tyngedfennol, darnau o arian, a chrochenwaith, a fydd efallai yn cadarnhau pryd yr adeiladwyd y caerau, a phryd yr ymadawyd a hwy.

Cloddiad 2005

Ymgymerwyd â chloddiad bach tair wythnos o hyd ym mis Gorffennaf 2005. Archwiliwyd un o'r mynedfeydd i mewn i'r gaer gynharaf, rhan o du fewn y gaer

hwyraf gan archwilio ardal yr anheddiad neu ficws. Darganfuwyd nifer fawr o grochenwaith a gwydr Rhufeinig ynghyd â deunydd arall y gellir ei ddyddio. Mae hyn yn cadarnhau ein cred wreiddiol fod yna bobl yn byw yn y caerau ar ddiwedd y ganrif gyntaf AD a dechrau'r ail ganrif AD.

Wnaeth Time Team, Sianel 4 ddarlledu yn fyw o'r cloddiad ar nosweithiau'r 2il a'r 3ydd o Orffennaf 2005 fel rhan o wythnos y 'Big Roman Dig'. Cynigiwyd cyfle unigryw i aelodau o'r cyhoedd ac ysgolion lleol a cholegau fod yn rhan o gyffro darganfyddiadau archaeolegol. Wnaeth Archaeoleg Cambria a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gynnig cyfle i rai sydd am ennill hyfforddiant mewn technegau archaeolegol ac i rai sydd am gymryd rhan am gyfnod byr fel cyflwyniad i'r broses o gloddio. Trefnwyd digwyddiadau addysgol ac ymweliadau gan ysgolion lleol.

Y crochenwaith o'r cloddiad

Mae'r crochenwaith yn cynnwys llestri bwrdd hardd Samian o Gâl, amffora i gario gwin ac olew'r olewydd o'r Eidal a Sbaen, a mortaria er mwyn cymysgu a pharatoi bwyd. Y llestr sydd wedi cadw orau yw pot cyfan yn dyddio o ddechrau'r ail ganrif AD. Mae'n ymddangos i'r pot hwn gael ei gladdu'n fwriadol y tu fewn i'r ail gaer, o bosib wedi iddo gael ei ddigomisiynu ac wedi i'r milwyr adael. Cafodd y llestr ei wneud yn ardal Malvern yn Swydd Gaerwrangon ac efallai yn wreiddiol fe'i defnyddiwyd i gadw halen.

Ni wyddwn pam y cafodd ei gladdu yn gyfan yng nghanol y gaer er efallai roedd yna rywbeth organig ynddo sydd wedi pydru ers hynny.